

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.3.1 Cyfrif amser gwirfoddolwyr wrth wneud cais am nawdd

Mae amser gwirfoddolwyr fel ased ariannol wedi dod yn fwyfwy pwysig gyda chyllidwyr. Mae eu gwerth, fodd bynnag, yn amrywio o gronfa i gronfa.

Lluniwyd y rhestr gyfraddau isod fel canllaw i'r gwerth y mae rhai noddwyr yn ei roi ar amser gwirfoddolwyr.

Mae'r **Arolwg Blynyddol o Oriau a Enillion** (2008) yn argymhell ar gyfer y DU llawn amser, heb gynnwys rhan amser £11.87, rhan amser £7.49.

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** fel arfer yn caniatáu £50 y diwrnod am lafur, £100 y diwrnod am lafur medrus a gwasanaethau technegol, a £300 y diwrnod am wasanaethau proffesiynol.

Nid yw **Cronfa Loteri Fawr** yn rhoi gwerth ariannol ar wirfoddoli gan nad ydynt yn ofyn amdano nawdd cyfatebol ond dylai ymgeiswyr cyfeirio at y canllawiau perthnasol yn ymwneud a'r cynllun dewisedig.

Mae **Cronfa Dreftadaeth y Loteri** wedi cyhoeddi canllawiau ar bennu gwerth cyfraniad gwirfoddolwyr i brosiectau, wrth asesu cyfraniad y ffynonellau hyn fel nawdd partneriaeth mewn ceisiadau i'r loteri. Mae'n awgrymu – gwasanaethau proffesiynol gwirfoddol – hyd at £350 y diwrnod; llafur medrus - £150 y diwrnod; llafur di-sgil - £50 y diwrnod.

Nid yw **Chwaraeon Cymru** yn nodi swm penodol ond mae'n disgwyl i fudiadau allu cyfiawnhau unrhyw gostau a nodir ee disgwylir i lafur gwirfoddol ar waith adeiladu gael ei reoli'n broffesiynol a'i ardystio.

Mae **Amgylchedd Cymru** yn caniatáu £6.50 yr awr neu £260 ar gyfer gwirfoddoli am wythnos 40 awr.

Mae **Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn** derbyn amser gwirfoddolwyr fel nawdd cyfatebol. Rhaid i'r cyfraddau fesul awr a hawlir fod yn berthnasol i'r math o waith a wneir a rhaid cyfiawnhau'r holl gostiadau.

Bydd **Cyngor Cefn Gwlad Cymru** yn derbyn llafur gwirfoddol fel cost cymwys ar gyfer prosiect ond ni chaiff hwn fod yn fwy na'r gwariant arian gwirioneddol ar y prosiect. Maent yn caniatáu £6.25 yr awr ar gyfer llafur di-sgil (£50 y diwrnod), £12.50 yr awr (£100 y diwrnod) ar gyfer llafur sgilgar a £37.50 yr awr (£300 y diwrnod) am wasanaethau proffesiynol.

Nid yw **Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru** yn rhoi gwerth ariannol ar wirfoddoli ond maent yn talu mân dreuliau cyfreithlon.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn

Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig 1088828

Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149

post@medrwnmon.org
www.medrwnmon.org



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2011